# Gwybodaeth Ychwanegol ar Atebion Gweinidogion

**Gwybodaeth ychwanegol ar OAQ0618(FM) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, ar ran y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 21 Mehefin 2004**

**At Jenny Randerson:**

Ysgrifennaf yn sgîl y pwynt a godasoch yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 21 Mehefin am wasanaethau meddygol cyffredin y tu allan i oriau arferol ac ymweliadau ag adrannau brys.

Cyn rhoi'r ateb yn fanwl, dylwn nodi'n syth mai anghywir yw eich haeriad bod y ddarpariaeth bresennol y tu allan i oriau arferol, ymweliadau ag adrannau brys ac amseroedd gweithdroi ambiwlansys yn gysylltiedig.

Er bod mater o ran perfformiad ambiwlansys ar hyn o bryd, mae'r cyfan o'r dystiolaeth sydd gennym yn dangos nad oes a wnelo hyn â'r newidiadau i'r contractau am waith y tu allan i oriau arferol.

Yn gyntaf, pe byddai'r newidiadau y tu allan i oriau arferol wedi achosi cynnydd yn nifer yr ymweliadau ag adrannau brys, fe'i gwelid yn nifer y cleifion yn mynd i'r ysbyty. Ers cyflwyno contract gwasanaethau y tu allan i oriau arferol, mae Ysbyty Athrofaol Cymru yn nodi bod 495 yn llai o gleifion wedi mynd i'r ysbyty (Hydref 2004 - Mai 2005) o'i gymharu â'r un cyfnod 12 mis yn ôl. Hefyd, o edrych ar dderbyniadau brys, gwelwyd yn yr ysbyty gwymp bach yn y derbyniadau (47) dros yr un cyfnodau. Felly, anghywir yw'ch haeriad bod galw am wasanaethau brys yn cyflym gynyddu.

Yn ei ateb, gwnaeth y Prif Weinidog y pwynt fod perfformiad adrannau brys yn cael ei effeithio yn aml gan argaeledd gwelyau ac yn sicr mae cael gwely i ganiatáu i gleifion sydd angen cael eu derbyn, a hynny'n briodol, yn fater. Bydd y problemau hyn yn rhoi amseroedd gwrthdroi ambiwlansys dan bwysau.

Yr wyf hefyd yn cynnwys peth gwybodaeth parthed y gwasanaethau y tu allan i oriau arferol, sy'n dangos, fel y dywedodd y Prif Weinidog, sefyllfa sy'n gwella.

Mae nifer y cleifion a frysbennir o fewn awr wedi cysylltu â gwasanaeth wedi gwella o 70 y cant i bron 85 y cant ym mis Mawrth, gyda'r ffigurau yn dangos gwelliant yn fisol. Gwelir 84 y cant o'r cleifion sy'n teithio i'r canolfannau triniaethau gofal sylfaenol o fewn 90 munud wedi iddynt gysylltu â'r gwasanaeth. Er mai Sadwrn a Sul yw dyddiau prysuraf yr wythnos, mae cyfanswm yr amser ar gyfartaledd hyd nes daw amser trin claf i ben eto yn llai na dwy awr.

Cynhelir arolygon o foddhad cleifion drwy arolwg ar hap. Hyd yn hyn, mae dros 300 claf wedi eu samplu. Mae boddhad cleifion yn gwella o 74 y cant ym mis Tachwedd 2004 i 92 y cant ar hyn o bryd. Yn ystod chwe mis cyntaf y gwasanaeth, cafwyd 64 o gwynion, sy'n gyfystyr â dau glaf o bob mil sy'n cysylltu â'r gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion (85 y cant) yn ymwneud ag amseroedd brysbennu ac, fel y nodais eisoes, mae'r perfformiad yn hynny o beth wedi gwella'n arwyddocaol.

Er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o’r math o glaf sy’n defnyddio gwasanaethau brys, yr ydym wedi comisiynu rhagor o arolygon ar draws nifer o ysbytai, gan gynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru. Yn yr arolygon hyn, holwyd cleifion ynghylch ystod y ffactorau oedd yn rhan o’u penderfyniad i fynd i adran frys. O’r cleifion a holwyd yn yr astudiaeth (496), dim ond un claf a ddywedodd iddo ystyried cysylltu â’r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol. Mae hyn yn awgrymu’n gryf, er bod llawer o ysbytai (heblaw am Ysbyty Athrofaol Cymru) yn gweld nifer y cleifion yn codi, nad oes a wnelo hyn â’r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol.

Felly, i gloi, er y byddwn yn cydnabod bod materion parthed perfformiad ambiwlansys o ran amser a bod llawer o adrannau brys yn gweld llawer mwy o gleifion, nid felly y mae hi yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac nid oes tystiolaeth gennym fod cysylltiad rhwng perfformiad y tu allan i oriau arferol a’r pwysau a welir ar hyn o bryd ar Ysbyty Athrofaol Cymru.